# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2025

Amser: 09.01 - 09.17

# O bell/ Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Paul Davies AS (yn lle Darren Millar AS) |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AS. Roedd Paul Davies AS yn bresennol fel dirprwy ar ei ran.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- <u>Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Porthladd Caergybi (45 munud)</u>
- <u>Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwysau'r Gaeaf ar y GIG (45 munud)</u>
- <u>Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr (45 munud)</u>
- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Technoleg a'r Gymraeg (45 munud)~~ *Datganiad Ysgrifenedig*

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai'n talu teyrnged i Jenny Randerson ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn heddiw, cyn gwahodd Jane Dodds i siarad fel Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Yn dilyn ymddiswyddiad Paul Davies fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai cadeiryddiaeth y Pwyllgor hwnnw barhau i gael ei ddyrannu i grŵp y Ceidwadwyr. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer y rôl hon ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn

heddiw, gyda chanlyniad unrhyw bleidlais gyfrinachol yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y cyfarfod.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i newid yr aelodau Ceidwadol ar nifer o bwyllgorau i'w hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

O ganlyniad, cytunwyd ar y newidiadau ychwanegol a ganlyn i agenda ddydd Mawrth:

- Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)
- Enwebiadau ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor (5 munud)

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.00pm

**Dydd Mercher**

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 10 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.20pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 14 Ionawr 2025**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Cartrefi Cynnes (45 munud)
- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwysau Gaeaf y GIG (45 munud)~~

**Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025**

- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Adfer natur yng Nghymru (45 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (5 munud)
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025 (5 munud)
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 22 Ionawr 2025 –**

- Dadl ar NNDM8756: Mabon ap Gwynfor AS (Dwyfor Meirionnydd) (60 munud)

**Dydd Mercher 29 Ionawr 2025 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Cyfalaf Trafodion Ariannol (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Delyth Jewell AS (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad o 7 Mawrth 2025;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau o 7 Mawrth 2025. Nododd y Trefnydd y gallai fod yn bosibl ymestyn y terfyn amser hwn, yn amodol ar amserlen y Bil yn Senedd y DU; ac
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Rhentwyr tan 31 Ionawr 2025.

Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai swyddogion y Senedd a Llywodraeth Cymru yn trafod y posibilrwydd o ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) o 10 Ionawr 2025, o gofio bod y ddadl ar gydsyniad ar hyn o bryd wedi'i threfnu ar gyfer 28 Ionawr a'i bod yn bosibl y gallai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ychwanegol gael ei osod.

## 4.2 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024 at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor

Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arnynt, ac i ofyn i'r pwyllgorau adrodd erbyn 20 Ionawr 2025, cyn y ddadl ar y rheoliadau yn y Senedd, a drefnwyd ar gyfer 21 Ionawr 2025.